CYNGOR ESGOBAETHOL TYDDEWI DROS GYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

PLANT DEWI

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl Swydd: Rheolwr Canolfan Deulu

Lleoliad Gwaith: 3 Heol Goch, Caerfyrddin

Safle yn y Sefydliad:

Cadeirydd – CEGC

Rheolwr Prosiect Plant Dewi

Rheolwr Canolfan Deulu

Cynnwys y Swydd:

Cynnig arweiniad o ran cynaliadwyedd a chyfeiriad strategol y rhwydwaith o ganolfannau teulu i wella cyfleoedd bywyd plant 0 i 11 oed yn y gymuned leol.

Cydberthnasau Gwaith:

Rheolwr Canolfan Deulu, Ysgrifennwr Bid Canolfan Deulu, Partneriaid allanol gan gynnwys asiantaethau gwirfoddol a statudol

Tasgau allweddol:

Bod yn rhan allweddol o Dîm Plant Dewi

Chwarae rôl allweddol fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf/Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin.

Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gwirfoddol a statudol gan gynnwys asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Rheoli gwaith gweithredol y canolfannau drwy staff a gyflogir yn uniongyrchol neu staff a gyflogir gan asiantaethau partner.

Sicrhau bod unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu bodloni'n briodol, e.e. diogelu, iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal, cyfrinachedd a diogelu data; a sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu cofnodi a bod cofnodion priodol i'w harchwilio yn cael eu cadw.

Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau sefydliadol digonol yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u monitro.

Goruchwylio a monitro systemau sicrwydd ansawdd yn y canolfannau.

Sicrhau bod safonau rheoli ariannol yn cael eu bodloni, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau.

Goruchwylio'r gwaith o fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y canolfannau, gan gynnwys adroddiadau rheolaidd i bwyllgor rheoli'r canolfannau ac adroddiadau i gyllidwyr.

Dylunio a gweithredu cynlluniau ar gyfer darparu a gwella'r gwasanaethau'n barhaus.

Hyrwyddo a chynrychioli'r canolfannau yn ôl yr angen, gan gynnwys cyflwyniadau i gynadleddau, cyfarfodydd cymunedol a rhyngasiantaethol ac ymgynghori ar ddatblygiadau yn y dyfodol.

Goruchwylio datblygiad a hyrwyddo ymglymiad cymunedol yn y canolfannau gan sicrhau bod rhieni, gofalwyr a phlant yn gallu cyfrannu at y gwaith o ddatblygu gwasanaethau.

Cyflawni dyletswyddau eraill yn ôl yr angen i fodloni'r galw newidiol.

Cyflawni unrhyw hyfforddiant neu dasgau eraill sy'n berthnasol i'r swydd yn ôl yr angen.

Mynychu cyfarfodydd ar ran Plant Dewi a'r rhwydwaith canolfannau teulu.

Monitro a gwerthuso'r gwaith yn unol â gofynion y cyllidwyr a gofynion Plant Dewi.

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill ar gais y rheolwr llinell i gyflawni'r targedau a amlinellir.

AMODAU GWAITH:

Rhywfaint o waith gyda'r nos/ar y penwythnos/yn ystod oriau anghymdeithasol (ar gais y rheolwr llinell).